



Ein cyf/Our ref: MA AP 1960 26

Grŵp-gapten Anrhydeddus Sally Bridgeland FIA
Cadeirydd
Banc Datblygu Cymru
Uned J, Pentref Busnes Iâl
Ellice Way
Wreccsam
LL13 7YL

30 Medi 2026

Llythyr Cylch Gorchwyl 2026-2030

Annwyl Sally

Banc Datblygu Cymru yw prif sefydliad cyllid datblygu cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ei bwrpas craidd yw sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer cychwyn busnesau ac i'w cryfhau a thyfu. Mae'r Banc hefyd yn rheoli cronfeydd arian ac yn darparu gwasanaethau sy'n cefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru o ran eiddo masnachol, tai, datgarboneiddio, ynni, amaethyddiaeth a seilwaith.

Mae'r Banc Datblygu wedi dod yn gyfrannwr dibynadwy ac uchel ei barch o fewn ecosystem cyllid busnes Cymru. Mae ei berthynas â busnesau Cymru, ei rwydweithiau o fuddsoddwyr, ei farn fasnachol a'i brofiad o reoli arian cyhoeddus yn asedau gwerthfawr. Mae cyfle i fanteisio ar y cryfderau hyn, trwy weithgarwch uniongyrchol y Banc ei hun a thrwy ei gyfraniad at y system datblygu economaidd ehangach.

Cenhadaeth economaidd ganolog Llywodraeth Cymru yw haneru'r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a'r DU dros y degawd nesaf drwy gynyddu cynhyrchiant a chryfhau capasiti cynhyrchu hirdymor economi Cymru. Er mwyn rhoi'r genhadaeth hon ar waith, rhaid mynd i'r afael â datblygu'r economi mewn ffordd gydgyssylltiedig a disgybledig. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus, asiantaethau a phartneriaid cyflenwi weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, gan arddel rolau clir a chyd ganolbwyntio ar ganlyniadau ymarferol. Yng nghyd-destun y brif flaenoriaeth hon, mae'r llythyr hwn yn nodi amcanion polisi Llywodraeth Cymru a dylai'r rheini lywio'r cronfeydd arian a'r meysydd gwasanaeth yn ystod y tymor Llywodraethu hwn.

Bydd yr asiantaeth ddatblygu genedlaethol sydd ar fin cael ei sefydlu yn rhan allweddol o ffordd newydd y Llywodraeth hon o ymdrin â datblygu economaidd. Hoffwn i'r Banc Datblygu weithio'n agos ac yn adeiladol gyda'r asiantaeth, gan feithrin perthynas ymarferol a phenderfynol, wedi'i seilio ar rolau clir ac ategol. Gallai cryfderau'r Banc Datblygu mewn cyllid, buddsoddi, rheoli cronfeydd arian a thrafod â buddsoddwyr ategu rôl ehangach yr asiantaeth o ran datblygu economaidd, twf busnes, arloesi, paratoi ar gyfer buddsoddi a

Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ
Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Adam.Price@llyw.cymru
Correspondence.Adam.Price@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chydlynu systemau. Trwy weithio gyda'i gilydd, gallai'r ddau sefydliad drefnu taith gydlynol ar gyfer y cleient a gwneud y mwyafrif o'u heffaith economaidd.

Hoffwn i'r Banc Datblygu ddefnyddio ei grebwyll o'r farchnad, ei arbenigedd masnachol a'i berthynas â buddsoddwyr i helpu i ddatblygu piblinell o brosiectau sy'n barod ar gyfer buddsoddi ynddyn nhw a helpu busnesau a phrosiectau hyfyw i gael y cyllid sydd ei angen arnyn nhw i dyfu.

Mae angen mwy o fusnesau ar Gymru sydd â'r raddfa, y gwytnwch a'r uchelgais i fuddsoddi, allforio ac arloesi tra'n cadw eu pencadlys yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at weld y Banc Datblygu yn defnyddio ei arbenigedd, ei gyfalaf a'i gysylltiadau yn y system i helpu'r busnesau hyn i ddechrau, goroesi, tyfu ac ehangu gan ofalu bod eu perchnogion, eu rheolwyr a'u gwerth economaidd yn aros yng Nghymru. Yn fy marn i, mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod mwy o'r manteision a ddaw trwy dwf yr economi yn aros yng nghymunedau Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall ac yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y Banc Datblygu a'i is-gwmnïau, a gwerthfawrogi bod gan rai o'r is-gwmnïau hyn lawer iawn o annibyniaeth i wneud penderfyniadau buddsoddi fel endidau ar wahân i'r Banc. Mae'r llythyr cylch gwaith hwn wedi'i baratoi gan gofio hynny a dylid ei ddarllen a'i ddehongli yn y cyd-destun hwnnw a'r cytundebau contractyddol presennol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Banc Datblygu.

Pan gaiff Strategaeth Gorfforaethol a Chynlluniau Gweithredol blynyddol y Banc Datblygu eu paratoi, byddaf yn disgwyl iddyn nhw esbonio'n glir sut y caiff y blaenoriaethau yn y llythyr hwn eu rhoi ar waith, nodi'r canlyniadau y bydd y Banc Datblygu yn disgwyl eu sicrhau, y fframwaith perfformiad cymesur ar gyfer y canlyniadau hynny, sut y bydd perfformiad a'r effeithiau'n cael eu monitro, a sut y bydd y Banc Datblygu yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, yr asiantaeth newydd a phartneriaid eraill i ymateb i amodau cyfnewidiol yr economi.

Bwriad y blaenoriaethau a'r camau a ddisgrifir yn y llythyr hwn yw rhoi cyfeiriad strategol a pholisi eglur i'r Banc Datblygu. Nid eu bwriad yw rhagnodi penderfyniadau gweithredol, masnachol, buddsoddi neu reoleiddiol unigol. Dylai'r Banc Datblygu gael penderfynu ar ei drefniadau cyflawni ei hun, yn unol â'i fframwaith llywodraethu, awdurdodau dirprwyedig, cytundebau cyllido a'i rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.

Canlyniadau â Blaenoriaeth

Mae'r canlyniadau isod yn crynhoi, o safbwynt y Banc, amcanion Llywodraeth Cymru.

1. Ei gwneud yn haws cael at gyllid trwy gynnal portffolio eang ac ymatebol o ddyled, ecwiti, cyfalaf tymor estynedig, cyllid ar gyfer prosiectau a chynnyrch ariannol eraill lle ceir tystiolaeth bod ar fusnesau eu hangen ar wahanol gamau datblygu.
2. Sbarduno twf cynhyrchiant ledled Cymru drwy helpu busnesau i fuddsoddi mewn technoleg, arloesedd, sgiliau, offer modern, rheolaeth well a modelau busnes mwy effeithlon.
3. Cefnogi busnesau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru i ddechrau, cryfhau, tyfu ac ehangu, gan gadw'r perchenogion, eu rheolaeth a'u gwerth economaidd yng Nghymru.
4. Gweithio fel actor amlwg o fewn tirwedd datblygu economaidd Cymru, gan gynnwys gweithio'n agos gyda'r asiantaeth ddatblygu economaidd sydd ar fin cael ei sefydlu, Llywodraeth Cymru, partneriaid rhanbarthol a chyrrff cyflenwi eraill, pob un yn gweithredu yn unol â'i gylch gwaith ei hun.
5. Chwarae rhan lawn wrth adeiladu piblinell weladwy o gynigion strategol sy'n addas i sefydliadau fuddsoddi ynddyn nhw, yn enwedig ym meysydd ynni, seilwaith, tai a busnesau cynhyrchiol.

6. Denu unigolion a sefydliadau i fuddsoddi, gan ddefnyddio cyllid cyhoeddus Cymru yn ofalus i leihau'r risg, sbarduno a rhyddhau cyfalaf ychwanegol lle daw hyn â buddion clir i Gymru,
7. Cefnogi amcanion cyflenwi tai a pherchenogi cartref, gan gynnwys cyllid ar gyfer BBaChau adeiladu tai, rhaglenni tai ehangach, ôl-osod, datgarboneiddio a datblygu cyfleoedd tai y gellir buddsoddi ynddyn nhw.
8. Galluogi buddsoddi mewn ynni, datgarboneiddio a seilwaith, gan ddefnyddio arbenigedd masnachol y Banc, ei alluoedd i strwythuro cyllid a'i gysylltiadau â chyllidwyr eraill i helpu i symud prosiectau hyfyw tuag at gyflawni a chynnull buddsoddwyr.
9. Darparu cyllid cyhoeddus mewn ffordd effeithiol a thryloyw, gan sicrhau bod adroddiadau perfformiad yn canolbwyntio ar y canlyniadau a sicrhawyd.
10. Gweithredu fel corff cyhoeddus rhagorol, gan ddangos cryfder o ran llywodraethu, stiwardiaeth, gwasanaeth i gwsmeriaid, ymrwymadau i'r Gymraeg, cynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant, ac alinio â gwerthoedd ehangach a dyletswyddau statudol bywyd cyhoeddus Cymru.

Cylch gwaith 2026 – 2030

Cynhyrchiant, ehangu a busnesau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru

Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Banc Datblygu gefnogi busnesau i fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cynyddu allbwn, eu gwneud yn fwy cystadleuol ac yn creu gwerth hirdymor. Gallai hynny gynnwys offer newydd, offer digidol, mabwysiadu technoleg, arloesi, arferion rheoli gwell, paratoi ar gyfer allforio, llywodraethu cryfach a sgiliau sy'n gysylltiedig â thwf busnes. Trwy'r buddsoddiadau hyn i ehangu, gall y Banc Datblygu helpu busnesau i gyfrannu at genhadaeth cynhyrchiant y Llywodraeth, gan gynnwys y nod o leihau'r bwlch mewn GVA bob awr a weithir.

Mae angen mwy o fusnesau sydd â'r gallu a'r hyder i dyfu. Mae yna lawer o ficro-gwmnïau a chwmnïau bach sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru, ond rhy ychydig o gwmnïau canolog.

Mae hyn yn bwysig oherwydd mae cwmnïau sy'n tyfu'n gynaliadwy yn gallu cryfhau cadwyni cyflenwi, cynnal swyddi gwell, gwella cynhyrchiant a chadw mwy o'u gwerth economaidd yng Nghymru.

Trwy'r buddsoddiadau hyn i ehangu gall y Banc Datblygu helpu busnesau i gyfrannu at genhadaeth cynhyrchiant y Llywodraeth, gan gynnwys yr uchelgais i haneru bwlch cynhyrchiant Cymru gyda'r DU dros y degawd nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Banc Datblygu roi pwyslais cryf ar gefnogi cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru ac sydd â'r potensial i dyfu, ehangu a buddsoddi, gan gynnwys cwmnïau sydd â rhan fawr o'u gwaith, eu gweithwyr, eu penderfyniadau, eu heiddo deallusol neu werth eu cadwyn gyflenwi yng Nghymru. Bydd ganddynt y potensial i wella cynhyrchiant, drwy arloesi masnacheiddio, datblygu a gwireddu deilliannau o brifysgolion, mabwysiadu technoleg, gwella galluoedd rheoli, allforio, cipio marchnadoedd newydd a dyfnhau cyfranogiad y gadwyn gyflenwi.

Amcanion y cylch gorchwyl:

- Gweithio gyda'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol i gyd-drefnu'r gefnogaeth ar gyfer cwmnïau sy'n tyfu, cynyddu nifer a maint cwmnïau o'r fath yng Nghymru, a chytuno ar drefniadau gwaith clir sy'n cwrdd â cyfrifoldebau arwain, llwybrau atgyfeirio, cymorth i fod yn barod i fuddsoddi, caniatâd cleientiaid a rhannu data lle bo hynny'n briodol, heb ddyblygu gwaith ei gilydd
- Sbarduno hyd a lles arbenigeddau a galluoedd y Banc Datblygu tuag at gadw mwy o gwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru yng Nghymru a chefnogi'r cwmnïau hyn drwy'r broses o dyfu, o ehangu ac o newid rheolaeth.

- Datblygu ymhellach cyfleoedd i fusnesau canolig eu maint a thwf uchel gael cyllid twf, dilynol a menter lle ceir tystiolaeth bod eu hangen ar y farchnad, gan weithio gyda'r sector preifat i ddenu buddsoddwyr.
- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi clystyrau o gwmnïau a chadwyni cyflenwi, gan gynyddu dyfnder a gwytnwch gweithgarwch economaidd Cymru a chadw mwy o werth yng Nghymru.
- Mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro twf drwy roi blaenoriaeth i gynigion sy'n cynnwys datblygu adeiladau busnes sy'n barod i gwmnïau canolig eu maint fuddsoddi ynddyn nhw o dan Gronfa Eiddo Masnachol Cymru.
- Datblygu agwedd strategol at gyd-fuddsoddi a chysylltiadau syndiceiddio â buddsoddwyr menter marchnad breifat a chyfalaf twf, er mwyn cefnogi cwmnïau o Gymru i gael cyllid ar gyfer camau diweddarach a rowndiau buddsoddi wedi hynny.

Cyflwyno Portffolio Gweithredol

Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Banc Datblygu barhau i reoli portffolio eang o gronfeydd a gwasanaethau i gefnogi busnesau yn eu gwahanol gamau, o'r buddsoddiad cychwynnol a'r cyfnod cynnar i dwf, olyniaeth, datblygu eiddo, datgarboneiddio ac anghenion arbenigol eraill. Wrth wneud hynny, gall y Banc Datblygu gyfrannu at wella dyluniad cyllid a'i wneud yn haws ei gael, gan gynnwys dyled, ecwiti ac atebion hybrid, cyllid prosiectau a buddsoddiad strwythuredig, a chefnogaeth i ddiwydiannau a marchnadoedd newydd.

Mae disgwyl hefyd y bydd gweithgareddau'r Banc Datblygu yn cael eu cynnal ledled Cymru, ond gan ystyried anghenion a chyfleoedd rhanbarthol a gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol lle gall hyn wella ansawdd cynigion buddsoddi neu helpu i alinio cyllid â blaenoriaethau economaidd lleol.

Dylid cadw golwg ar bortffolio'r Banc Datblygu i weld ble mae cronfeydd arian yn bodloni angen clir, lle mae bylchau yn y farchnad yn parhau, a lle y gallai fod angen newidiadau, addasu cynhyrchion, symleiddio trefniadau cael cyllid, a stopio neu ailddylunio gweithgarwch lle ceir tystiolaeth nad yw'n cael digon o effaith.

Amcanion y cylch gorchwyl:

- Monitro'r farchnad yn rhagweithiol, gan nodi ble ceir diffyg cyllid dyledion, ecwiti a phrosiectau a chyfalaf tymor hir, a darparu cyllid cyhoeddus Cymru yn unol â chenhadaeth cynhyrchiant y Llywodraeth a'r angen i ddangos ychwanegedd, gwerth am arian a pherfformiad portffolio cynaliadwy.
- Cyflawni i wireddu ymrwymïadau presennol y gronfa a gwneud y mwyaf o'i heffaith ar yr ecosystem fusnes yng Nghymru.
- Chwarae rhan amlwg wrth baratoi'r farchnad i hwyluso olyniaeth hyfyw i fusnesau ac i berchenogion aros yng Nghymru, gan gynnwys cael cyllid ar gyfer busnesau sy'n eiddo i weithwyr, busnesau cymdeithasol a busnesau sydd wedi'u prynu gan eu rheolwyr os gallant gadw eu pencadlys, eu rheolaeth neu eu gwerth economaidd yng Nghymru.
- Parhau i gryfhau brand ac enw da'r Banc Datblygu, gwrando ar gwsmeriaid a rhanddeiliaid, ymateb i'r adborth hwnnw, a chymryd camau yn ôl yr angen i sicrhau bod modelau cyflenwi sy'n cael eu datblygu a phrofiadau cysylltiedig cwsmeriaid yn parhau i gwrdd â'r galw a rhoi profiadau cadarnhaol i gwsmeriaid.
- Datblygu dulliau adrodd i helpu i ddeall sut mae gweithredoedd y banc yn cefnogi cyfalaf dilynol a godir gan gwmnïau'r portffolio, camau at rowndiau cyllido diweddarach, cyfalaf allanol sy'n cael ei ddenu i Gymru a symudiad cwmnïau i dyfu'n ganolig ac aros felly.

Parodrwydd ar gyfer Buddsoddiad, Partneriaethau a Systemau Cyflenwi

Bydd ar Gymru sydd ag economi gryfach angen piblinell weladwy a chynaliadwy o fusnesau, prosiectau a chyfleoedd sy'n gallu denu buddsoddiad. Mae datblygu'r biblinell honno yn

gyfrifoldeb a rennir ar draws y system datblygu economaidd a bydd yn dibynnu ar gydlynw effeithiol rhwng y Banc Datblygu, yr asiantaeth ddatblygu genedlaethol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

Mae gan y Banc Datblygu gyfraniad pwysig i'w wneud trwy ei berthynas â busnesau, buddsoddwyr a noddwyr prosiectau, a thrwy ei arbenigedd mewn cyllid, paratoi ar gyfer buddsoddiad, strwythuro masnachol a rheoli cronfeydd arian. Trwy ddefnyddio'r system ehangach, gallai'r Banc Datblygu helpu i nodi cyfleoedd sydd â photensial ar gyfer twf a buddsoddi, esbonio a deall yr hyn sy'n rhwystro cynigion a fyddai fel arall yn rhai da i fuddsoddi ynddyn nhw, a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny trwy'r ymyriadau mwyaf priodol. Wrth wneud hynny, bydd y Banc Datblygu yn cefnogi uchelgais y Llywodraeth hon i Gymru fod yn un o'r lleoedd hawsaf yn y DU i ddechrau, tyfu ac ehangu busnes a buddsoddi ynddo.

Amcanion y cylch gwaith

- Gweithio gyda'r Asiantaeth Ddatblygu Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Cydbwyllgorau Corfforaethol, Bargeinion Dinas a Thwf a phartneriaethau economaidd rhanbarthol i gyd-ddatblygu prosiectau buddsoddi, cryfhau piblinellau buddsoddi rhanbarthol ac alinio cyllid cyhoeddus â strategaethau datblygu economaidd rhanbarthol.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda sefydliadau cyllid cyhoeddus y DU a Chymru i ddatblygu partneriaethau a threfniadau cyd-fuddsoddi, gwneud y mwyaf o gyfalaf allanol all ddod i Gymru a chefnogi cynnig cyllid cyhoeddus cydlynol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru.
- Defnyddio gwybodaeth y Banc am y farchnad, ei gyfleuster ymchwil Dirnad Economi Cymru a'i arbenigedd masnachol i nodi cyfleoedd a rhwystrau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer parodrwydd i fuddsoddi, gan ddarparu gwybodaeth amserol i Lywodraeth Cymru, yr Asiantaeth a'r partneriaid cyflenwi i helpu i ddatblygu polisi, dylunio cynnyrch a phenderfyniadau cyflawni ar draws system datblygu economaidd Cymru.
- Helpu busnesau a phrosiectau i ddelio â materion ariannol a masnachol sydd o fewn cylch gwaith y Banc, gan gynnwys parodrwydd cyllido, strwythuro cyfalaf ac ymgysylltu â buddsoddwyr. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod rhwystrau ehangach, gan gynnwys diffygion o ran galluedd rheoli, cymorth arloesi, cynllunio, paratoi safle, seilwaith neu sgiliau, yn cael eu nodi a'u datrys gan y sefydliad sy'n gallu ymyrryd orau.
- Darparu cyllid hygyrch ar gyfer arloesi trwy ei ystod o gynnyrch, gan helpu i droi gweithgarwch arloesi a mabwysiadu technoleg yn fuddsoddiad mewn busnes sy'n cyfrannu at dwf cynhyrchiant.
- Dangos gwerth am arian ac ychwanegedd drwy ganolbwyntio ar y canlyniadau a gafwyd, gan gynnwys busnesau sy'n tyfu ac yn ehangu, cynhyrchiant uwch, ansawdd y swyddi, yn eiddo i Gymru ac effaith economaidd ranbarthol. Chwilio am gyfleoedd lle gall cyllid cyhoeddus Cymru leihau risgiau a sbarduno buddsoddiad allanol, gan gynnwys helpu i lunio cynigion credadwy a threfniadau cyd-fuddsoddi sy'n addas ar gyfer buddsoddwyr preifat, sefydliadol a hirdymor.

Tai a pherchnogion tai

Mae gan y Banc Datblygu rôl bwysig ym mhob rhan o gylch bywyd tai, o ddarparu safleoedd a chyllid datblygu hyd at helpu perchenogion tai, ôl-osod ac arbed ynni, gan barhau i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi o ansawdd uchel ledled Cymru ac i gefnogi'r pontio i dai carbon isel.

Fel y darparwr cyllid datblygu mwyaf i BBaCh adeiladu tai yng Nghymru, gall y Banc Datblygu gefnogi Llywodraeth Cymru i ryddhau a chynnal llawer o dai o bob deiliadaeth yn gyflym drwy fynd i'r afael â'r prif gyfyngiadau gan gynnwys diffyg cyfleoedd i fuddsoddi ynddyn nhw a thrwy ddarparu cymorth i fusnesau.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw y bydd gallu gweithredol y Banc Datblygu i gynnal rhaglenni cenedlaethol, o'u dechrau i'w diwedd, yn cael ei ymestyn dros y cyfnod i ysgogi effeithiau sy'n

deillio o bolisi tai a pherchnogaeth tai yn ogystal ag effeithlonrwydd cyflawni'r sector cyhoeddus.

Amcanion y cylch gorchwyl:

- Darparu cyllid dyledion ac ecwiti i gefnogi BBaChau i adeiladu mwy o gartrefi; gan gynnwys cynlluniau lleihau risg a helpu'r ddwy ochr i daro ar fargen.
- Archwilio'r gallu i ddenu buddsoddiad preifat a sefydliadol drwy fodelau cyllido strwythuredig i adeiladu mwy o dai yng Nghymru drwy fuddsoddi ar raddfa fwy.
- Cefnogi datblygu Unnos trwy ddarparu arbenigedd buddsoddi a chysylltiadau ar y rhwydwaith i ddatblygu atebion cyllido arloesol i helpu i ddarparu cyfleoedd datblygu preswyl. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Banc Datblygu fod yn bartner allweddol i Unnos o ran darparu cyllid datblygu ochr yn ochr â chaffael safleoedd, crynhoi tir a chyllid seilwaith.
- Cefnogi gwaith ôl-osod ar raddfa fawr, rhaglenni datgarboneiddio a busnesau sy'n ymgorffori mesurau arbed ynni a gwresogi carbon isel yn eu tai (gweler hefyd Ynni a Seilwaith isod).

Ynni a Seilwaith

Ceir cyfleoedd arwyddocaol yng Nghymru ym meysydd cynhyrchu ynni a datgarboneiddio a seilwaith. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i ddatblygu llawer o'r prosiectau posibl cyn y gallant ddenu buddsoddiad. Gall rhwystrau gynnwys safle heb fod yn barod, mwy nag un perchennog, sefyllfa ariannol y prosiect yn aneglur, cynllunio, capasiti'r grid, cymhlethdod cyflenwi a'r angen i ddod â gwahanol gyllidwyr at ei gilydd. Gall y Banc Datblygu helpu i fynd i'r afael ag agweddau ariannol a masnachol y rhwystrau hyn os ydynt o fewn y cylch gorchwyl, a gweithio gyda chyrrff eraill neu gyfeirio atynt lle mae cyfrifoldebau datblygu ehangach yn codi, megis materion cynllunio, cysylltiadau'r grid neu faterion datblygu prosiectau ehangach.

Mae gan y Banc Datblygu rôl bwysig i'w chwarae fel galluogwr a chynullydd yn y maes hwn. Gan ddefnyddio'i sgiliau masnachol, ei sgiliau strwythuro cyllid a'i gysylltiadau â buddsoddwyr ac â sefydliadau cyllid cyhoeddus eraill, gall helpu i droi syniadau da yn gynigion y gellir buddsoddi ynddyn nhw. Gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Cwmni Ynni Cyhoeddus Cymru a phartneriaid, gall hefyd helpu i baratoi cynigion lle gall cyllid cyhoeddus sbarduno gweithredu neu ryddhau cyfalaf preifat a sefydliadol.

Amcanion y cylch gwaith

- Cydweithio â chyllidwyr eraill, gan gynnwys y Gronfa Gyfoeth Wladol, Banc Busnes Prydain a lle bo hynny'n briodol, Partneriaeth Pensiwn Cymru, i annog sefydliadau i fuddsoddi cyfalaf mewn prosiectau seilwaith strategol.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, yr Asiantaeth Ddatblygu Genedlaethol newydd a Chwmni Ynni Cyhoeddus Cymru i gefnogi cyfleoedd buddsoddi i ehangu'r capasiti ynni yng Nghymru, gan gynnwys helpu i ddylunio neu ddarparu cyllid lle bo hynny'n cael ei gomisiynu a'i ariannu ac o fewn cylch gwaith y Banc.
- Ystyried opsiynau arloesol ar gyfer gwireddu sero net.
- Datblygu opsiynau ar gyfer cefnogi perchnogaeth gymunedol a buddion i'r gymuned mewn datblygiadau ynni mawr, gan sicrhau y dônt â budd hirdymor Cymru, a chan ddibynnu ar faint y gyllideb, yr achos busnes a chytundeb Gweinidogion, cyflwyno cynigion peilot lle bo hynny'n ymarferol.
- Cefnogi strwythuro a darparu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer cyfleoedd newydd.
- Paratoi adroddiad blynyddol ar gydweithgarwch, canlyniadau cyd-fuddsoddi a chyfalaf allanol a ddenwyd i Gymru.

Cyllido cyhoeddus effeithiol

Mae'r Banc Datblygu yn rheoli adnoddau cyhoeddus arwyddocaol. Rhaid defnyddio'r adnoddau hynny yn ofalus, yn effeithlon ac yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r Banc ddangos bod cyllid cyhoeddus Cymru yn cael ei ddefnyddio i lenwi bylchau yn y farchnad, cefnogi cyfleoedd economaidd, osgoi prosiectau y gallai cyllid preifat fuddsoddi ynddyn nhw, a chynhyrchu elw y gellir ei ailfuddsoddi lle bo hynny'n briodol. Y Banc Datblygu fydd yn y sefyllfa orau i esbonio pa wahaniaeth y mae cyllid cyhoeddus wedi'i wneud, pam roedd angen ymyrryd, a pha werth economaidd sydd wedi'i greu i Gymru. Wrth wneud, gellir ystyried gweithgareddau a thargedau yn ogystal ag ychwanegedd, dadleoli, crynhoi portffolio, colledion disgwylidiedig, amhariadau, gofynion rheoli cymhorthdal, fforddiadwyedd, rhwymedigaethau annisgwyl a gwerth am arian. Bydd dal gofyn am gydweithio agos rhwng y Banc Datblygu, Llywodraeth a Thrysorlys Cymru ar fframweithiau cyllido a chyfrifyddu. Dylai'r Banc Datblygu barhau i weithio'n agored ac yn adeiladol â swyddogion i reoli Cyfalaf Trafodion Ariannol, ailgylchu cyfalaf, lliniaru risg ariannol, a hyrwyddo fforddiadwyedd hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cronfeydd arian unigol yn cael eu rheoli gyda golwg ar y portffolio cyffredinol, gan gydnabod bod perfformiad cynaliadwy'r portffolio yn ganolog i effaith hirdymor. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Banc Datblygu gyflwyno cynigion a allai newid strwythurau cyllido i wella hyblygrwydd, rhoi mwy o werth am arian neu gael mwy o effaith hirdymor. Gall hyn gynnwys opsiynau i ailgylchu mwy o elw, denu cyfalaf allanol a gwneud y gorau o gyllid cyhoeddus dros amser. Dylid cytuno ar gwmpas ac amserlen y cynigion hyn, a'r dystiolaeth sydd ei hangen, gyda Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Cymru drwy'r broses gynllunio a chyllidebu flynyddol.

Amcanion y cylch gorchwyl:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud cyllid cyhoeddus ar draws y portffolio Cyfalaf Trafodion Ariannol mor effeithlon â phosib a chynyddu ei effaith, gan weithio gyda Thrysorlys Cymru i reoli risgiau, gofynion cyfrifyddu, fforddiadwyedd a rhwymedigaethau dibynnol.
- Yn unol ag amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru, cyflwyno cynigion ar gyfer ariannu strwythurau cyflenwi sy'n cynnig hyblygrwydd ac sy'n cynyddu effeithlonrwydd, gan chwyddo'r effaith hirdymor drwy ailgylchu cyfalaf.
- Adolygu'r modd y caiff ei gyflwyno drwy Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru ym mlwyddyn 4 i barhau i ddarparu tystiolaeth o'i effaith ar y farchnad, gan gynnwys y dystiolaeth y cytunwyd arni am ychwanegedd, dadleoli, gwerth am arian a pherfformiad y portffolio, ac i lywio esblygiad model y gronfa.
- Cyflwyno cynigion ar gyfer defnyddio cyllid y sector cyhoeddus yn effeithiol i ddenu buddsoddiad preifat a sefydliadol

Corff cyhoeddus enghreifftiol

Fel endid buddsoddi dibynadwy Llywodraeth Cymru, mae cyfrifoldeb ar y Banc Datblygu i hyrwyddo safonau uchel o ran rheoli cyllid cyhoeddus a risg a chynnal egwyddorion uniondeb, priodoldeb, hyfywedd a gwerth am arian yn ogystal â dangos safonau llywodraethu corfforaethol uchel bob amser.

Amcanion y cylch gorchwyl:

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac wrth weithio gyda'r gymuned fusnes yng Nghymru.
- Mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi amrywiaeth a chwalu rhwystrau i gynhwysiant.
- Cytuno ar amcanion llesiant statudol a chadw atynt, gan gynnwys dangos ei fod yn eu bodloni yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynnal strategaeth gynaliadwyedd wedi'i chyhoeddi, fydd yn sicrhau bod sero net yn cael ei ymgorffori yn ôl y gofyn ym mhob gweithgaredd.

- Defnyddio arloesedd, data ac offer digidol i wella effeithlonrwydd ac effaith. Dylai ddefnyddio unrhyw dechnoleg newydd mewn ffordd gyfrifol, gymesur a diogel sy'n cydfynd â disgwyliadau'r sector cyhoeddus.
- Rhoi cefnogaeth weithredol i agenda strategol a pholisïau, planiau a chynlluniau statudol perthnasol Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a'r Gymraeg. Yn eu plith y mae Cymraeg 2050, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Fel sefydliad cyllid cyhoeddus yng Nghymru, cefnogi amcanion gwaith teg ehangach y Llywodraeth drwy hyrwyddo'n glir a chymesur waith teg a chyflog byw gwirioneddol trwy weithgarwch portffolio a chysylltiadau â chwsmeriaid.

Cyflawni'r Cylch Gwaith


Rwy'n disgwyl ac yn deall y bydd eich Strategaeth Gorfforaethol a'ch Cynlluniau Gweithredol sydd ar ddod yn esbonio sut y bydd y Banc Datblygu yn gwireddu'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a nodir yn y llythyr cylch gwaith hwn. Dylai'r cynlluniau fod yn ymarferol, yn seiliedig ar dystiolaeth a chanolbwyntio ar gyflawni, gyda chanlyniadau clir a fframwaith cadarn ar gyfer asesu effaith, ychwanegedd a gwerth am arian.

Dros dymor y Senedd hon, mae cyfle i gryfhau rôl y Banc Datblygu fel sefydliad cyllid cyhoeddus dibynadwy, partner ymarferol i fusnes, a sbardun ar gyfer buddsoddi a datblygu economaidd ledled Cymru. Yn y pen draw, bydd llwyddiant yn cael ei fesur nid yn ôl faint o gyllid yr ymdriniwyd ag ef, ond yn ôl y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i economi Cymru: busnesau cryfach, cynhyrchiant uwch, mwy yn nwylo Cymry, a mwy o ffyniant ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai argymhellion y Panel Arbenigol annibynnol a sefydlwyd i gynghori ar gwmpas, swyddogaethau a chylch gwaith yr Asiantaeth Ddatblygu Genedlaethol newydd effeithio ar y dirwedd datblygu economaidd ehangach. Os bydd y Llywodraeth yn gweld bod yr argymhellion hynny yn gofyn am newid y llythyr cylch gwaith hwn yn ystod y tymor, byddaf yn sgrifennu atoch gydag unrhyw ddiweddariadau neu welliannau perthnasol.

Mae'r berthynas rhwng y Banc Datblygu a Llywodraeth Cymru wedi bod yn ganolog i dwf a datblygiad y sefydliad. Hoffwn ddiolch i chi, y Bwrdd, y tîm gweithredol a'r staff am eich ymrwymiad diflino i'r bartneriaeth honno. Mae cyfleoedd pwysig o'n blaenau. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i wireddu'r uchelgeisiau hyn ac i ddangos, drwy ganlyniadau clir a mesuradwy, y gwahaniaeth y gall y Banc Datblygu ei wneud i economi Cymru dros dymor y Senedd hon.

Yn gywir



Adam Price AS/MS

Y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni
Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy